Cydlynydd

- o ceisio geirdaon i Arweinwyr Cyfoed newydd a gwirio eu cofnodion

dyrannu i fyfyrwyr newydd dan 18 oed a’r rhai a ddiffinnir fel oedolion agored i niwed;
- o hwyluso cyswllt rhwng Arweinwyr Cyfoed a myfyrwyr newydd cyn iddynt gyrraedd y brifysgol;
- o pennu dyletswyddau penodol i Arweinwyr Cyfoed;
- o cefnogi a chynghori Arweinwyr Cyfoed fel bo'r angen gyda'u gwaith yn ystod y cyfnod croesawu ac ar ôl hynny;
- o hwyluso'r ffordd i fyfyrwyr newydd fedru cael y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed;
- o ymyrryd os nad yw myfyriwr, am ba bynnag reswm, wedi cyfarfod ag Arweinydd Cyfoed ac yn dymuno gwneud hynny;

Mynd i gyfarfodydd gyda'r Cydlynydd Canolog Cefnogi Cyfoedion a Chydlynwyr Arweinwyr Cyfoed ysgolion eraill er mwyn:

- o sicrhau bod y Cynllun Arweinwyr Cyfoed yn gweithio'n effeithiol;
- o rhannu arfer da;
- o cynorthwyo gyda datblygu'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed.

Rhoi cefnogaeth i'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed o fewn y sefydliad a chodi ei broffil y tu allan i'r sefydliad.

12. Cyfrifoldebau holl Arweinwyr Cyfoed yw:

Cwblhau'r prosesau ymgeisio a hyfforddi yn llwyddiannus.

Gweithredu fel llysgennad positif dros Brifysgol Bangor.

Cyflawni gweithgareddau Arweinydd Cyfoed mewn ffordd gyfrifol a chynhwysol.

Peidio ag ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n tanseilio'r ymddiriedaeth a roddwyd ynddynt.

Cynorthwyo israddedigion newydd, a lle bo’n briodol, myfyrwyr ôl-radd i drosglwyddo’n gadarnhaol

Rhoi gwybod i'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion neu i Gydlynydd Arweinwyr Cyfoed eu